Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Ddwy Ieuthog Hwyl a Sbri**

**17 New Road**
**Llanelli**
**SA15 3DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/06/2023

# Meithrinfa Ddydd Ddwy Ieuthog Hwyl a Sbri

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Hwyl a Sbri Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Mawrth 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n gwneud rhywfaint o ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n hyderus ym Meithrinfa Ddydd Ddwy Ieuthog Hwyl a Sbri. Maent yn cael eu cefnogi wrth chwarae a dysgu ac maent yn cyfathrebu'n hyderus â'r rhai o'u hamgylch.

Mae'r staff yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel, yn iach, ac yn hapus. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu ac yn arsylwi ar ddysgu a datblygiad y plant ac yn eu gwerthuso. Fodd bynnag, mae angen mwy o gysondeb ymhlith y staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnig amgylchedd diogel, glân a chroesawgar. Maent yn sicrhau eu bod yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a gwiriadau diogelwch rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen asesiadau risg mwy ffurfiol. Mae amrywiaeth o deganau, adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant, sy'n hyrwyddo eu sgiliau annibyniaeth yn ogystal â'u datblygiad cyffredinol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gweithio mewn ffordd gymwys i gynnal a datblygu eu gwasanaeth. Maent yn cadw'r holl gofnodion gofynnol yn ddiogel ac yn sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth briodol â'r rhieni. Mae ganddynt staff â chymwysterau a phrofiad priodol ac maent yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chymarebau staffio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn y maent yn ei wneud a'r pethau sy'n effeithio arnynt fel rhan o drefn feunyddiol y feithrinfa. Er enghraifft, maent yn dewis pa weithgareddau y maent am ymgymryd â nhw ar ôl cinio, ac mae rhai plant yn dewis eistedd gyda'i gilydd a lliwio, tra bo eraill yn dewis chwarae ar eu pennau eu hunain. Pan nad oedd plentyn am fwyta'r cinio a ddarparwyd, dywedodd wrth y staff, a chynigwyd pryd o fwyd arall i'r plentyn. Mae'r staff yn gwrando ar blant iau, dieiriau. Er enghraifft, gofynnir iddynt ailadrodd yr hyn y maent wedi'i gyfleu, neu mae'r staff yn pwyntio ac yn cadarnhau gyda'r plant.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi ymlacio yn y feithrinfa. Maent yn cyrraedd yn awyddus i chwarae ac yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni. Maent yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol a chynnes â'r staff a'r plant eraill. Mae'r plant yn gwenu ar ei gilydd ac yn cyfarch eu ffrindiau wrth iddynt ddod i mewn i'r feithrinfa. Er enghraifft, pan ddaeth un plentyn i mewn amser cinio, gwnaeth plentyn arall gyffroi'n lân, gan godi llaw a gwenu ar y plentyn. Mae'r plant hŷn yn gyfarwydd â'r drefn feunyddiol ac yn ei dilyn, gan ymateb yn syth pan ofynnir iddynt ddod i gael cinio neu fyrbryd. Maent yn hyderus, yn cyfrach ymwelwyr mewn ffordd gynnes, ac maent yn fwy na pharod i ddangos eu teganau. Mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau drwy helpu i dacluso pan ofynnir iddynt wneud hynny. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o berthyn, hyder a hunan-barch. Gall y plant iau ddilyn eu trefn unigol eu hunain sy'n meithrin ymdeimlad o sicrwydd. Maent yn mynd at y staff i gael maldod ac i geisio sicrwydd pan fydd ei angen.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn; maent yn chwarae mewn ffordd gydweithredol neu ochr yn ochr â'i gilydd ac maent yn dysgu sut i gymryd eu tro. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored roedd y plant yn aros eu tro i ddefnyddio'r castell, sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae awyrgylch cyfeillgar a hamddenol yn y feithrinfa. Mae'r plant iau sydd weithiau'n cynhyrfu ychydig yn cael eu tawelu'n gyflym gan y staff ac yn cael maldod ganddynt i'w cysuro.

Gall y plant symud yn rhydd o amgylch yr ystafelloedd, o bryd i'w gilydd, ac maent yn dewis o amrywiaeth o deganau ac adnoddau. Mae'r plant yn ymateb yn frwd i awgrymiadau gan y staff. Er enghraifft, pan ofynnodd aelod o'r staff i'r plant “*who wants to build a tower?*” gwnaethant ateb yn frwd, “*me please*”. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth a hunangymorth. Maent yn bwyta'n annibynnol gyda hyder. Gwrthododd un plentyn gymorth y staff wrth geisio bwydo ei hun, ac roedd un arall yn gwenu'n llawn balchder ar y staff wrth nôl ei ddŵr yfed ei hun.

## Gofal a Datblygiad **Digonol**

Mae'r staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac mae ganddynt lefel briodol o wybodaeth i ymgymryd â'u dyletswyddau'n dda. Maent yn dilyn trefniadau glanhau addas ac yn cadw ardaloedd yn gymharol rydd rhag peryglon. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo ac yn glanhau'r byrddau yn rheolaidd. Mae rhai aelodau o'r staff yn annog y plant i barchu eitemau a chymryd rhan wrth dacluso, ac yn hyrwyddo moesau. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei wneud yn gyson gan bob aelod o'r staff. Mae hyfforddiant diogelu'r staff yn gyfredol ac maent yn gwybod pa weithdrefnau y dylid eu dilyn os bydd pryder ynglŷn â phlentyn. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi a'u llofnodi gan y rhieni, gan sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu am ddigwyddiadau o'r fath. Maent yn cofnodi anafiadau sydd gan y plant eisoes ac yn sicrhau eu bod yn cadw llygad arnynt ac yn cymryd camau os bydd angen. Maent yn hyrwyddo ymdrechion i fwyta'n iach drwy roi byrbrydau a phrydau bwyd iach i'r plant.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn arwain drwy esiampl, drwy ddefnyddio strategaethau cadarnhaol i helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant a gyda'i gilydd. Maent yn trin ei gilydd yn garedig iawn a gyda pharch ac mae hyn yn creu awyrgylch cadarnhaol a hapus. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn siarad yn dyner wrth atgoffa'r plant beth i'w wneud. Er enghraifft, drwy annog y plant i ddefnyddio eu *“indoor voices”* tawel a dweud, “*well done for sharing*”. Mae'r staff yn dilyn strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol gan amlaf. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth i gefnogi'r plant. Er enghraifft, roedd y staff sy'n ymdrin â'r plant iau yn eu cymeradwyo am eu hymdrechion, gan ddweud “*Oh! That’s creative, I love it*”, a rhoi pawen lawen i roi hwb i'w hyder.

Mae'r staff yn meithrin sgiliau dysgu a datblygu'r plant yn briodol. Maent yn cyfathrebu â nhw wrth iddynt chwarae ac yn ystod y drefn feunyddiol. Er enghraifft, maent yn sgwrsio â nhw yn ystod amser byrbryd, gan drafod eu bwydydd neu eu canmol am fwyta. Mae hyn yn helpu i greu profiadau cymdeithasol ac yn cefnogi sgiliau lleferydd ac iaith y plant. Mae'r staff yn cymryd rhan yn chwarae'r plant pan fydd hynny'n briodol. Mae rhai aelodau o'r staff yn defnyddio cyfleoedd i ehangu'r hyn y bydd y plant yn ei ddysgu drwy ofyn cwestiynau. Er enghraifft, wrth ymgymryd â gweithgaredd taflu, gofynnodd y staff i'r plant enwi lliwiau'r bagiau ffa yn Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn rhoi cyfle i'r plant fod yn actif a chael awyr iach, drwy ddefnyddio'r ardal chwarae awyr agored bob dydd. Mae'r staff yn gwneud gwaith digonol i gynllunio dysgu'r plant, arsylwi arno a'i werthuso. Mae trefniadau cynllunio priodol ar waith ganddynt sy'n ymdrin â gwahanol feysydd dysgu a'r sgilau cyffredinol y bydd y plant yn eu datblygu. Mae'r staff yn dangos camau dysgu nesaf y plant ac yn arsylwi ar blant unigol yn rheolaidd. Maent yn sicrhau y tynnir sylw at unrhyw bryderon ynglŷn â datblygiad ac yn gweithredu os bydd angen. Ar y cyfan, mae'r staff yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda, megis eu hannog i fwydo eu hunain ac arllwys eu diodydd eu hunain.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa a'r staff yn sicrhau eu bod yn gofalu am y plant mewn amgylchedd diogel â threfniadau addas i wneud yn siŵr na all y plant adael y safle heb oruchwyliaeth. Mae systemau diogelwch ar waith i sicrhau na all unrhyw unigolion heb awdurdod ddod i mewn i'r feithrinfa o'r tu allan ychwaith, ac mae giatiau diogelwch ar y fynedfa i bob ystafell. Mae patrymau ar y drysau gwydr sy'n arwain at ardal allanol dan do. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa a'r staff yn ymwybodol o'r risgiau ac yn cynnal asesiadau risg â'r llygaid ac yn cwblhau rhestrau ticio diogelwch bob dydd, er enghraifft, i blant sy'n coginio neu cyn defnyddio'r ardal awyr agored. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asesiadau risg ffurfiol ar waith. Mae'r feithrinfa yn lân ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae tystysgrifau cynnal a chadw ac yswiriant cyfredol gan y feithrinfa. Mae boeler newydd wedi cael ei osod. Mae manylion aelodaeth a dogfennau sy'n ymwneud â'r feithrinfa ar y wal arddangos yn y swyddfa.

Mae'r ystafelloedd chwarae yn groesawgar, ac yn gyfeillgar. Mae digon o le i blant o bob oedran chwarae a dysgu. Mae ardaloedd penodol ar gyfer dysgu ac arddangosfeydd lliwgar, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac ardal fwaog fach lle gall y plant ddarllen neu orffwys. Nid yw'r ystafelloedd chwarae i fyny'r grisiau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, oherwydd y niferoedd isel o blant sy'n mynychu'r feithrinfa. Mae cynllun yr ystafelloedd yn golygu y gall y plant symud o amgylch yn rhydd ac yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn darparu amrywiaeth foddhaol o adnoddau sy'n cynnig amrywiaeth a dewis i'r plant. Mae'r rhain yn hygyrch ar lefel y plant, sy'n eu galluogi i gael gafael ar amrywiaeth ddigonol o deganau a chyfarpar sy'n briodol ar gyfer eu hoedran yn annibynnol.

Mae toiledau'r plant, potiau a stoliau camu yn hygyrch yn syth o'r ystafell chwarae, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth o ran rheoli eu hanghenion personol eu hunain. Mae ystafell gysgu i fyny'r grisiau, sy'n cynnig lle diogel a thawel i'r plant gysgu heb fod neb yn tarfu arnynt. Mae'r ardal chwarae awyr agored wedi cael ei hehangu i gynnwys ardal dan do amgaeedig sy'n cynnig amrywiaeth dda o adnoddau. Gwelsom fwrdd tywod, deinosoriaid, llithren, potiau a sosbenni, ardal gegin, treisiglau, llithren ddringo ar ffurf castell, teiars a glaswellt artiffisial. Mae amrywiaeth o gyfarpar addas i gefnogi datblygiad corfforol. Mae'r dodrefn, y teganau a'r cyfarpar o ansawdd gweddol ac maent yn briodol ar gyfer yr holl blant yn y lleoliad. Mae'r teganau a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r feithrinfa yn cael ei rhedeg yn dda o ddydd i ddydd. Mae tîm rheoli clir ar waith ac mae'r dirprwy reolwr yn hyderus am ei rolau a'i chyfrifoldebau pan fydd yn gyfrifol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau ynglŷn â gwella'r lleoliad ac maent wedi rhannu tystiolaeth o'r gwelliannau a wnaed ers yr ymweliad arolygu. Maent hefyd wedi rhoi bron pob un o'r argymhellion a wnaed yn ystod eu harolygiad blaenorol ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi paratoi datganiad o ddiben addas sy'n rhoi gwybodaeth bwysig i rieni ynglŷn â sut mae'r lleoliad yn gweithredu. Mae ganddynt ffeil gynhwysfawr o bolisïau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cadw'r holl gofnodion gofynnol, fwy neu lai, gan gynnwys anghenion unigol, contractau a chaniatadau. Maent yn sicrhau y caiff y rhain eu rhannu â'r rhieni ac yn cadw'r cofnodion yn ddiogel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnal adolygiad hunanwerthuso. Maent yn ceisio barn y rhieni/gofalwyr a'r plant ac yn paratoi adroddiad digonol ar ansawdd y gofal, sy'n tynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae polisi cwynion addas ar waith pe bai rhieni am godi mater.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod gan y staff gymwysterau addas. Mae ganddynt daflen trosolwg ar waith ac maent yn sicrhau bod modd adnewyddu hyfforddiant mewn pryd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnal gwiriadau cyn cyflogi priodol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys yr holl dystiolaeth o'r gwiriadau. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi cadarnhau bod yr holl dystiolaeth ar gael. Mae arfarniadau blynyddol sylfaenol a sesiynau goruchwylio yn cael eu cynnal ac mae'r staff yn mynychu amrywiaeth o hyfforddiant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cadw cofnodion priodol ynglŷn â phresenoldeb y plant ac mae hyn yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r gymhareb rhwng staff a phlant ac yn rhagori arni weithiau. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn glir pwy sy'n gweithio gyda pha grŵp o blant. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi cadarnhau bod system newydd ar waith sy'n dangos ac yn cofnodi pwy sy'n gweithio gyda pha grŵp o blant.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarnhaol. Mae'r rhieni yn cael eu hysbysu drwy adborth llafar bob dydd a thrwy negeseuon. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth a ddarperir, gan ddweud eu bod yn dawel eu meddwl bod eu plant yn ddiogel ac yn hapus pan fyddant yn y feithrinfa.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| | Nid oedd y staff yn gwbl ymwybodol o'r weithdrefn ddiogelu mewn perthynas â honiad yn erbyn aelod o'r staff | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod y staff yn rhoi trefn feunyddiol a strategaethau cyson ar waith i'r plant. |
| Datblygu asesiadau risg ffurfiol |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/09/2023